# Astudiaeth ACCORD

## Datblygu fframwaith gwerthuso rhagnodi cymdeithasol ac adrodd yn ôl am safonau

### ADRODDIAD ASTUDIAETH GRŴP - MAPIO CYSYNIAD


Astudiaeth ACCORD: Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru
Comisiynwyd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Ariannwyd gan Lywodraeth Cymru



*Megan Elliott a'r Athro Carolyn Wallace*

*Grŵp Llywio: Dr Marco Arkesteijn, Julie Davies, Mair Edwards, Dr Nikki Lloyd Jones, Anne Morris, Soo Vinnicombe, Dr Andy Williams, Yr Athro Fiona Wood*


*Gorffennaf 2021*

# Cynnwys


1f. Cyflwyniad a chefndir………………………………………………………………………. 3

2. Dulliau a dulliau o fynd ati ……………………………………………… 5

3. Canfyddiadau…………………………………………………………………………………………… 7

3a. Cyfranogwyr…………………………………………………………………………………… 7

3b. Arferion da ar gyfer gwerthuso rhagnodi cymdeithasol……………………………… 8

4. Casgliad……………………………………………………………………………........... 17

5. Cyfeiriadau……………………………………………………………………………............ 19

6. Atodiadau…………………………………………………………………………………… 21


# 1. Cyflwyniad

Cysyniad aml-ddimensiynol ydy rhagnodi cymdeithasol gyda'r potensial i ddelio ag anghydraddoldebau ac i hyrwyddo iechyd a llesiant y cyhoedd (Popay et al., 2007; Moffatt et al., 2017; Verity et al., 2021). Mae'n ffurf ar ofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn sydd fe arfer yn cynnwys gweithiwr cyswllt (enwau eraill arno ydy cysylltydd cymunedol, cydlynydd cymunedol neu ymgynghorydd llesiant) sy'n cynnal sgwrs ar 'yr hyn sy'n bwysig' gyda'r unigolyn, yn cyd-lunio targedau a'u cysylltu ag asedau yn eu cymuned i ddiwallu eu hanghenion (Rees et al., 2019; SCIE, 2020; Wallace et al., 2020; Roberts et al., 2021a).

Mae modelau rhagnodi cymdeithasol yn amrywiol iawn a defnyddiwyd dulliau gwahanol i weithredu rhagnodi cymdeithasol yn dibynnu ar y boblogaeth darged, yr adnoddau sydd ar gael a'r cyd-destun (Husk et al., 2016; Wallace et al., 2020; Roberts et al., 2021a). Ar gyfer yr adroddiad hwn, rydyn ni'n defnyddio diffiniad Rees et al. (2019) o ragnodi cymdeithasol sef "*cysylltu dinasyddion â chymorth yn y gymuned er mwyn gallu rheoli eu hiechyd a'u llesiant yn well*". Mae'r diffiniad hwn yn cwmpasu ffurfiau o ragnodi cymdeithasol sydd ar waith yn y gymuned, gofal sylfaenol a sefyllfaoedd eraill. Mae hefyd yn cwmpasu gwahanol fathau o ragnodi cymdeithasol; cyfeirio, ysgafn, canolig a holistaidd a nodir gan Kimberlee (2015). Mae'r gwahanol fathau hyn yn amrywio yn eu diben, eu nodau, lefel eu dwyster, y dull cyflenwi a chysylltiadau gydag asiantaethau atgyfeirio eraill. Gallai ymyriadau rhagnodi cymdeithasol hefyd gael eu teilwra'n benodol ar gyfer poblogaethau neu grwpiau targed (Carnes et al., 2017; Pilkington et al., 2017; Price et al., 2017; Steadman et al., 2017).

Mae ystod o fodelau rhagnodi cymdeithasol a'r gwahaniaethau o fewn pob un o'r mathau hyn o ragnodi cymdeithasol yn cynnig her ar gyfer gwerthuso rhagnodi cymdeithasol a dod i gasgliadau am effeithiolrwydd rhagnodi cymdeithasol yn fwy cyffredinol. Mae cymhlethdod rhagnodi cymdeithasol o gofio hyd a lled y rhanddeiliaid perthnasol, natur gyfnewidiol rhagnodi cymdeithasol, aml lwybrau atgyfeirio, amrediad mesurau'r canlyniadau a phoblogaeth darged eang hefyd yn cynnig her ar gyfer gwerthuso (Roberts et al., 2021b; Tierney et al., 2020). Hyd yn hyn, yn gyffredinol, ar raddfa gymharol gyfyng fu gwerthusiadau rhagnodi cymdeithasol gan ddefnyddio cynlluniau heb reolaeth ac ystyrir bod y sail tystiolaeth yn amheus (Roberts et al., 2021b; Bickerdike et al., 2017). Mae ymchwilwyr wedi galw am fframwaith gwerthuso cyd-gysylltiedig a fyddai'n hwyluso'r broses o werthuso rhagnodi cymdeithasol ar draws y maes amrywiol hwn (Bickerdike et al., 2017). Yn ogystal â hwyluso gwerthusiad cyson, trylwyr ar draws y maes rhagnodi cymdeithasol, gall fframwaith gwerthuso gynnig canllawiau a chymorth i'r rhai sy'n cynnal gwerthusiadau neu sy'n monitro gwasanaethau ac sydd heb gael hyfforddiant ffurfiol. .

I gychwyn datblygu fframwaith gwerthuso ar gyfer rhagnodi cymdeithasol, cynhaliodd Wallace et al (2018) astudiaeth gonsensws er mwyn pennu egwyddorion canlyniadau a fframwaith ar gyfer Cymru. Nododd yr astudiaeth dair egwyddor; unigolyn, cymuned. Ar gyfer pob egwyddor, roedd nifer o themâu a mesurau canlyniadau cyffredinol y gellir eu defnyddio i gasglu data cyfatebol. Yr astudiaeth hon oedd y sail i ddatblygu astudiaeth ACCORD. Rhaglen ymchwil aml-gyfnod ydy ACCORD a fydd yn ymgorffori adolygiad realistig (Elliott et al., 2021), dwy astudiaeth gonsensws er mwyn datblygu fframwaith gwerthuso ac adrodd am safonau rhagnodi cymdeithasol, ac yna profi'r fframwaith a'r safonau drwy eu rhoi ar waith (Gweler Ffigwr 1).




*Ffigwr 1. Astudiaeth ACCORD (2020-2022).*

Mae’r astudiaeth bresennol yn adrodd yn ôl am astudiaeth gonsensws gyntaf ACCORD, gan ddefnyddio Grŵp Mapio Cysyniad (Kane & Trochim, 2007) i ystyried yr hyn ddylai arferion da wrth ragnodi cymdeithasol ei gynnwys o safbwynt ymchwilwyr, ymarferwyr, rheolwyr, comisiynwyr a rhanddeiliaid rhagnodi cymdeithasol eraill.

## 2. Dull a dull o fynd ati

Lansiwyd yr astudiaeth hon ar y 18fed o Fawrth 2021 ar gyfer Diwrnod Rhagnodi Rhyngwladol a'i chau ar y 6ed o Fehefin 2021. Cafwyd cymeradwyaeth foesegol panel moeseg isel ei risg gan Gyfadran Addysg Gwyddorau Bywyd Prifysgol De Cymru [CYF: 200933LR].

### Mapio Cysyniad Grŵp

Defnyddiodd yr astudiaeth ddull consensws ar-lein o'r enw Mapio Cysyniad Grŵp (GCM; Kane & Trochim, 2007) i ystyried safbwynt cyfranogwyr ar yr hyn ddylai arfer da gwerthuso rhagnodi cymdeithasol ei gynnwys. Gofynnwyd i gyfranogwyr gwblhau tri cham dilyniannol yn unigol ar-lein gan ddefnyddio meddalwedd Group Wisdom™; rhaeadru syniadau, dosbarthu a mesur gwerth. Mae rhaeadru syniadau yn gofyn i gyfranogwyr lunio datganiadau mewn ymateb i awgrym. Ar ôl llunio datganiadau, bydd cyfranogwyr yn eu dosbarthu yn 'bentyrrau' synhwyrol yn eu tyb nhw ac yn eu labelu. Yn olaf, gofynnir i gyfranogwyr ystyried safle pob datganiad o ran eu pwysigrwydd yn ôl aml-raddfeydd.

Roedd defnyddio GCM yn caniatáu i ymchwilwyr gyrraedd sampl ryngwladol wasgaredig ddaearyddol o gyfranogwyr. Roedd cyfranogwyr yn gallu bod yn rhan o'r ymchwil ar adeg a lleoliad cyfleus iddyn nhw. Arweiniwyd yr astudiaeth gan hwylusydd GCM cymwys (ME) gyda chymorth hwylusydd GCM (CW) a grŵp llywio astudiaeth gydag arbenigedd o ran cynnwys a methodolegol.

#### *Cwestiynau demograffig*

Ar ôl cyrchu'r ymchwil ar-lein, gofynnwyd i gyfranogwyr ateb pum cwestiwn demograffig a ddefnyddiwyd i ddadansoddi'r data:

- Ble ydych chi'n byw? [Rhestr opsiynau: De Ddwyrain Cymru, De Orllewin Cymru, Canolbarth Cymru, Gogledd Cymru, Lloegr, Yr Alban, Gogledd Iwerddon , Gweriniaeth Iwerddon, Ewrop, Gogledd America, De America, Yr Affrig, Asia ac Awstralasia]
- Sawl blwyddyn o brofiad sydd gennych ym maes rhagnodi cymdeithasol? [Darperir diffiniad o ragnodi cymdeithasol].
- I ba fath o sefydliad ydych chi'n gweithio? [Rhestr o opsiynau: Sefydliad Gwirfoddol, Sefydliad Preifat, Sefydliad statudol, Sefydliad iechyd gwladol, Sefydliad iechyd preifat, Llywodraeth leol, Llywodraeth genedlaethol, Sefydliad academaidd/ prifysgol, Arall: Nodwch].
- Beth ydy'ch rôl sylfaenol ym maes rhagnodi cymdeithasol? [Rhestr o opsiynau : Comisiynydd, Cyllidwr, Ymchwilydd, Rheolwr, Ymarferydd, Llywodraethwyr, Aelod o'r Cyhoedd, Arall: Nodwch].
- Beth ydy'ch rolau ym maes rhagnodi cymdeithasol? Rhestr o opsiynau (dewiswch nifer): Rhanddeiliaid, Defnyddiwr gwasanaeth, Cynrychiolydd ymglymiad cyhoeddus, Defnyddiwr gwerthusiad, Ymchwilydd, Gwerthusydd, Ymchwilydd arweiniol, Cynllun ymchwil, Casglu data, Eitemau/mewnbwn data, Dadansoddi data, Dehongli canfyddiadau, Adrodd am ganfyddiadau, Comisiynydd gwerthusiad, Comisiynydd gwasanaeth, Rheoli ymchwil, Trefn lywodraethu ymchwil, Moeseg, Gwella gwasanaeth, Cyflenwi gwasanaeth, Rheoli gwasanaeth, Arall: Nodwch].

#### *Cam 1: Rhaeadru Syniadau*

Gofynnwyd i gyfranogwyr i lunio datganiadau mewn ymateb i awgrym:

*"Pan fydda i'n meddwl am werthuso ym maes rhagnodi cymdeithasol, dylai arfer gwerthuso da gynnwys …"*

a
Lluniwyd yr ysgogiad ffocws gan yr awduron ar ôl ymgynghori â grŵp llywio Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru (WSSPR) ac aelodau Grŵp Llywio ACCORD. Roedd cam rhaeadru syniadau'r astudiaeth ar agor am gyfnod o 5 wythnos (18.03.2021 – 25.04.2021).

### *Cam 2: Didoli*

Ar y cam hwn, gofynnwyd i gyfranogwyr ddidoli'r datganiadau i bentyrrau yn ôl yr hyn oedd yn synhwyrol iddyn nhw. Yna, gofynnwyd iddyn nhw labelu'r pentyrrau hyn. Agorwyd cam didoli yr astudiaeth hon ar 04.05.2021 a chau ar 06.06.2021.

### *Cam 3: Ystyried gwerth*

Ar y cam olaf, gofynnwyd i gyfranogwyr ystyried gwerth pob datganiad ar raddfa 5 pwynt Likert:

- Pwysigrwydd
  1 (ddim yn bwysig) i 5 (pwysig iawn)
- Pa mor ddefnyddiol ydy'r datganiad i'ch rôl?
  1 (ddim yn ddefnyddiol o gwbl) i 5 (yn ddefnyddiol iawn i fy rôl)

Agorwyd y cam ystyried gwerth ar yr un pryd â 'r cam dosbarthu (04.05.2021 – 06.06.2021).

### *Dadansoddi*

Adolygwyd, glanhawyd a chynhaliwyd prosesau derbyn meddalwedd. Dilynwyd pedair cam dadansoddi data gan ddefnyddio'r feddalwedd ar-lein:

- Cam 1: Dadansoddwyd pum ymateb demograffig y cyfranogwyr gan ddefnyddio ystadegau disgrifiadol.
- Cam 2: Lluniwyd matrics tebygrwydd o ddatganiadau didoledig y cyfranogwyr. Mae hyn yn dangos y nifer o gyfranogwyr a ddidolodd y datganiadau gyda'i gilydd.
- Cam 3: Yn sgil dadansoddi graddio-amlddimensiynol y matrics tebygrwydd lluniwyd map pwynt datganiaad . Neilltuir pwynt ar yr echelin ddau ddimensiwn (XY) ar gyfer pob datganiad cyfranogwyr (Ffigwr 3).
- Cam 4: Defnyddiwyd algorithm Ward wrth ddadansoddi clwstwr hierarchaidd o glystyrau o ddatganiadau er mwyn llunio map clwstwr gyda labeli clwstwr (gweler Ffigwr 4), mapiau o ystyried gwerth clwstwr (Ffigyrau 5-6) ,adroddiad ar batrwm y matsio (Ffigwr 7) a dadansoddiad 'go-zone' (Ffigwr 8). Roedd y dadansoddiad 'go-zone' yn ein galluogi i nodi'r datganiadau pwysicaf yn nhyb y cyfranogwyr (Tabl 4) a'r mwyaf defnyddiol yn eu rôl (Tabl 5).

Roedd grŵp llywio'r astudiaeth yn cynnwys academyddion o Brifysgol De Cymru, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Wrecsam Glyndwr ac ymarferwyr arbenigol o Grwp Cynefin, Interlink RhCT a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd. Cynorthwyodd y grŵp llywio i gyfosod datganiadau, dadansoddi data a dehongli canfyddiadau.

## 3. Canfyddiadau

### Cyfranogwyr

Anfonwyd gwahoddiadau i gymryd rhan i sefydliadau a rhwydweithiau porthora yn cynnwys Rhwydwaith Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru, Rhwydwaith Rhyngwladol Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru, CGGC(WCVA), Canolfan PRIME Cymru, grŵp Datblygu Rhwydwaith Rhagnodi Cymdeithasol, Cymunedau Ymarfer Rhagnodi Cymdeithasol Cymru, Rhwydwaith Celfyddydau Iechyd a Llesiant Cymru ac eraill. Gofynnwyd i'r porthorion i rannu'r gwahoddiad ymhlith eu rhwydweithiau gydag unigolion a allai fod â diddordeb mewn cymryd rhan.

Cofnododd pum deg chwech (*n* = 56) eu diddordeb mewn cymryd rhan a dychwelodd pum deg un (*n* = 51) ffurflen ganiatâd. Cwblhaodd cyfranogwyr oedd yn rhan o'r GCM fel hyn:

- Cwestiynau Cyfranogwyr (*n* = 42)
- Gweithgaredd rhaeadru syniadau (*n* = 36)
- Wedi gorffen gweithgaredd didoli (*n* = 30)
- Wedi gorffen gweithgaredd nodi pwysigrwydd gwerth (*n* = 26)
- Wedi gorffen gweithgaredd hawdd mesur gwerth (*n* = 20)

Roedd cyfranogwyr wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol. Roedd y mwyafrif yn byw yng Nghymru (n = 21, 50%), gyda chynrychiolaeth i Dde Ddwyrain Cymru (n = 8, 19%), De Orllewin Cymru (n = 5, 12%), Canolbarth Cymru (n = 4, 10%) a Gogledd Cymru (n = 4, 10%). Roedd gweddill y cyfranogwyr yn byw yn Lloegr (n = 12, 29%), Gogledd Iwerddon (n = 2, 5%), Ewrop (n = 6, 14%) a Gogledd America (n = 1, 2%).


Roedd hyd ymglymiad mewn rhagnodi cymdeithasol yn amrywio o 0 i 20 mlynedd gydag ymglymiad cymedr o 4.45 blwyddyn a chanolrif o 3 blynedd.

Roedd cyfranogwyr yn gweithio i ystod eang o sefydliadau. Roedd y mwyafrif yn gweithio i sefydliadau/prifysgolion academaidd (n = 18, 43%), sefydliadau gwirfoddol (n = 7, 17%) a sefydliadau iechyd cenedlaethol (n = 8, 19%). Roedd cyfranogwyr eraill yn gweithio i sefydliadau preifat (n = 1, 2%), sefydliadau statudol (n = 3, 7%) ac eraill (n = 5; 12%) oedd yn cynnwys ymgynghoriaeth rheoli annibynnol; clwstwr Meddygon Teulu a hunan-gyflogedig.

Ymchwilwyr ym maes rhagnodi cymdeithasol oedd mwyafrif y cyfranogwyr (n = 22, 52%). Hefyd, dywedodd cyfranogwyr mai eu rôl sylfaenol ym maes rhagnodi cymdeithasol oedd fel ymarferwyr (n = 5, 12%), rheolwyr (n = 4, 10%), comisiynydd (n = 1, 2%), llywodraethu (n = 1, 2%), o'r cyhoedd (n = 1, 2%) ac eraill (n = 7; 17%), oedd yn cynnwys: darpar ddarparwr, eiriolwr iechyd cyhoeddus, cymorth ar gyfer sefydliadau/gweithgareddau rhagnodi cymdeithasol, arloeswr, arbenigwyr drwy brofiad, atgyfeirydd ac ymarferydd , polisi ac amcanion strategol.

Yn olaf, roedd cyfranogwyr yn gallu dethol cyfres o rolau wrth werthuso rhagnodi cymdeithasol. Cynrychiolwyd pob gweithgaredd gan i leiaf un cyfranogwr. Nododd cyfranogwyr eu bod yn ymgymryd ag ystod o rolau, rhwng 1 ac 13 o rolau gyda chyfartaledd o 5 rôl ym maes gwerthuso fesul cyfranogwr. Roedd y rolau hyn yn cynnwys Rhanddeiliad, Defnyddiwr Gwasanaeth, Cynrychiolydd ymglymiad y cyhoedd, Defnyddiwr Gwerthusiad, Ymchwilydd, Gwerthusydd, Ymchwilydd Arweiniol, Dylunydd Ymchwil, Casglu data, Cofnodi/mewnosod data , Dadansoddi data , Dehongli canfyddiadau, Adrodd am ganfyddiadau, Comisiynydd gwerthuso, Comisiynu gwasanaeth, Rheoli ymchwil. Trefnu ymchwil, Moeseg, Gwella Gwasanaeth, Cyflenwi gwasanaeth,

Rheoli gwasanaeth, Arall: darpar ddarparwr, rhagnodwr cymdeithasol a gaiff ei werthuso o ran canlyniadau gyda chleifion, PPI mewn ymchwil, archwilio a gwerthuso gwasanaethau. Gweler Ffigwr 2.




*Ffigwr 2. Rolau ym maes rhagnodi cymdeithasol a nodwyd gan gyfranogwyr (dewisiadau lluosog).*

## Arferion da wrth Werthuso Rhagnodi Cymdeithasol

### *Gweithgaredd 1: Rhaeadru Syniadau*

*Yn ystod y gweithgaredd rhaeadru syniadau, cynhyrchodd y cyfranogwyr (n = 36) restr gychwynnol o 187 o ddatganiadau mewn ymateb i'r ysgogiad ffocws, "Pan fyddaf yn meddwl am werthuso mewn rhagnodi cymdeithasol, dylai arfer gwerthuso da gynnwys…".*

Defnyddiwyd y dull "Key Words in Context (KWIC; Kane & Rosas, 2017) i gyfosod y rhestr datganiadau. Roedd hyn yn cynnwys adolygu'r rhestr datganiadau crai, dileu datganiadau diangen/amherthnasol a golygu datganiadau i sicrhau eu bod yn cwblhau'r ysgogiad ffocws yn ramadegol. Rhannwyd datganiadau cyfansawdd, gan arwain at 260 o ddatganiadau unigol. Nodwyd y geiriau allweddol a ymddangosodd yn y datganiadau gwreiddiol a rhoddwyd gair cod i bob datganiad (e.e. canlyniadau, cyfranogol, dylunio, cymuned). Cafodd pob set o ddatganiadau o fewn gair cod eu hadolygu gan yr awduron a'u cyfosod, lle'r oedd modd, yn un datganiad. Cynhaliwyd nifer o iteriadau i gyfuno'r rhestr datganiadau. Lleihaodd yr adolygiad cyntaf y rhestr i 199, lleihawyd yr ail i 163 a lleihaodd yr adolygiad terfynol y rhestr i 125. Anfonwyd y rhestr grai a'r rhestr wedi'i chyfosod at y grŵp llywio i'w hadolygu a rhoi sylwadau arni. Amlygodd aelodau'r grŵp llywio ddatganiadau y gellid eu syntheseiddio ymhellach, a oedd yn ailadrodd neu wedi'u cyfosod yn ormodol. Ar ôl i'r holl adborth gael ei goladu, cadarnhawyd rhestr derfynol o 124 o ddatganiadau a'u hail-lwytho i'r feddalwedd ar gyfer camau 2 a 3. Mae rhestr lawn o'r 124 datganiad terfynol i'w gweld yn Atodiad 1 ac mae enghreifftiau o ddatganiadau yn y rhestr derfynol i'w gweld yn Nhabl 1.

*Tabl 1. Enghreifftiau o ddatganiadau o'r rhestr a gyfosodwyd.*

| Nifer y Datganiadau | Datganiad |
|---|---|
| 12 | Protocol ymchwil gwyddonol trylwyr |


| | |
|---|---|
| 24 | Dosbarthu canlyniadau'r gwerthuso i gynulleidfaoedd o ddefnyddwyr |
| 46 | Dulliau cymysg sy'n ymgorffori barn yr holl randdeiliaid |
| 78 | Ymchwil gweithredu cyfranogol yn cynnwys partneriaid, cleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn y gwerthusiad o ragnodi cymdeithasol |
| 111 | Data gan bob parti - comisiynwyr, sefydliadau rhagnodi cymdeithasol, darparwyr ymyriad, derbynwyr ymyriad |

## *Gweithgaredd 2: Didoli*

Yn y gweithgaredd hwn , gofynnwyd i gyfranogwyr ddosbarthu a grwpio pob datganiad yn bentyrrau a rhoi label unigol ar bob pentwr. O hyn, mae'r meddalwedd yn cynhyrchu cyfres o fapiau pwyntiau a mapiau clwstwr.

Yn ystod y cyfnod dadansoddi rhagarweiniol, gyda'r grŵp llywio, o ddadansoddi'r mapiau, cafwyd bod gwahaniaethau rhwng data cyfranogwyr y DU yn unig o'i gymharu â set data cyfranogwyr rhyngwladol oedd wedi'i gynnwys. O dderbyn nad ydy rhagnodi cymdeithasol yn symud yn ei flaen tu allan i'r Deyrnas Unedig ac mai dim ond saith o gyfranogwyr a gynhwyswyd, cytunwyd gan y grŵp llywio mai data'r DU yn unig fyddai'n cael ei gynnwys ar y cam hwn o'r dadansoddiad. Yna gellid defnyddio'r data rhyngwladol ar gam hwyrach, er mwyn darparu awgrymiadau ar y modd y gellir addasu'r fframwaith ar gyfer cyd-destun rhyngwladol.

Gan ddefnyddio data dosbarthu a graddio'r DU yn unig (n = 22), cynhyrchodd y meddalwedd fap pwyntiau yn dangos y 124 datganiad i gyd (Ffigwr 3).





*Ffigwr 3. Map pwyntiau a gynhyrchwyd gan gyfrifiadur o'r 2124 o ddatganiadau*

Gwerth strés terfynol y set data oedd **0.3559**. Ystyriwyd bod gwerth y strés yn debyg i atebolrwydd gydag ystod derbyniol o 0.205 – 0.365 (Kane & Trochim, 2007), felly ystyriwyd bod y map a gynhyrchwyd yn berthnasol iawn. Mae pob pwynt ar y map yn cynrychioli datganiad. Mae pa mor agos mae datganiadau i'w gilydd yn dangos pa mor fynych y dosbarthwyd y datganiadau gyda'i

gilydd gan gyfranogwyr. Er enghraifft, mae datganiadau 67 a 117 (dde uchaf y map) yn agos at ei gilydd ac felly'n cael eu didoli gyda'i gilydd yn aml. I'r gwrthwyneb, mae datganiadau 122 a 10 ar ochrau cyferbyn y map, felly anaml y cafodd rhain eu didoli gyda'i gilydd neu ddim o gwbl.

Yna, cynhyrchwyd nifer o fapiau clwstwr gan y meddalwedd er mwyn casglu datganiadau yn glystyrau tebyg. Rhoddodd y meddalwedd opsiynau o rhwng 4 a 15 o ddatrysiadau clwstwr. Ystyriodd y grŵp llywio y detholiad a dadansoddi datrysiadau'r clwstwr yn fanwl. Yn dilyn y dadansoddiad trylwyr hwn cytunwyd ar fodel **wyth**-clwstwr. Ein teimlad oedd bod diffyg manylion gronynnog yn y modelau 4-7 clwstwr ond bod clystyrau o fewn datrysiadau clwstwr 9+ yn gorgyffwrdd a heb fod yn ddigon cryno.

Cynhyrchodd y meddalwedd restr o labeli clwstwr posibl yn ôl y labeli a roddwyd gan gyfranogwyr yn ystod y cam dosbarthu. Dadansoddwyd y datganiadau o fewn pob un o'r wyth -clwstwr a dewiswyd y label mwyaf priodol. Sef: dyluniad (1), dulliau ymchwil (2), effaith ar y defnyddiwr (3), mesurau canlyniad (4), gweithlu a sefydliad (5), deall y cyd-destun lleol (6), cyfathrebu a lledaenu (7) a materion ymarferol ymchwil (8) (Ffigwr 4).




*Ffigwr 4. Map clwstwr gyda labeli o ymarfer dosbarthu cyfranogwyr*

Seilir lleoliad pob datganiad mewn clwstwr ar grwpio cyfranogwyr o bob datganiad. Er enghraifft, mae datganiad 34, *'Cyfnod dilynol o 12 mis i ystyried canlyniadau ac effeithiau hir-dymor'* yn digwydd o fewn clwstwr dyluniad gwerthuso oherwydd dyna lle cafod ei leoli gan fwyafrif o gyfranogwyr. Dangosir y berthynas gyd-destunol rhwng clystyrau gan y pellter rhyngddyn nhw. Po agosaf y clystyrau, cryfach ydy'r berthynas sydd ganddyn nhw. Felly, mae' r clwstwr 'Effaith ar y defnyddiwr' yn agosaf at 'Mesur canlyniad' a 'Dulliau ymchwil' nag at glystyrau eraill.

Clwstwr 'dyluniad gwerthuso' [1] oedd â'r mwyaf o ddatganiadau (n = 27) a 'Deall y cyd-destun lleol â'r nifer lleiaf o ddatganiadau(n = 10). Mae gwerthoedd pontio yn dangos pa mor agos mae datganiad yn perthyn i'r eitemau o fewn y clwstwr y mae wedi cael ei leoli, maen nhw'n amrywio

o rhwng 0 ac 1. Mae gwerthoedd pontio uchel yn dangos bod datganiad wedi cael ei ddosbarthu gyda syniadau mewn nifer o glystyrau. Mae gwerthoedd pontio isel yn dangos bod y datganiadau wedi'i ddosbarthu'n fwy cyson o fewn y clwstwr hwnnw, mae'r datganiadau hyn yn cynrychioli 'datganiadau angor' o fewn clwstwr. Mae Tabl 2 yn dangos y nifer o ddatganiadau fesul clwstwr, y clwstwr gwerth pontio a'r ddau ddatganiad gyda'r gwerthoedd pontio isaf o fewn y clwstwr (h.y. y datganiadau angor).

*Tabl 2. Datganiad angor ar gyfer pob clwstwr, nifer o ddatganiadau fesul clwstwr a gwerthoedd pontio ar gyfer clystyrau a datganiadau angor (mae gwerth pontio is yn cynrychioli addasrwydd agosach ar gyfer y clwstwr).*

| Rhif. | Clwstwr | Gwerth Pontio |
|---|---|---|
| **1 – Dyluniad y Gwerthuso (n=27)** | | **0.30** |
| 11 | Y cyfle ar gyfer opsiynau aml-ddewis i alluogi grwpio clir o'r data ond gydag opsiwn ychwanegol i ychwanegu pwyntiau na ddeliwyd â nhw'n glir | 0.00 |
| 5 | Dylunio astudiaethau ymchwil sensitif | 0.09 |
| **2 – Dulliau ymchwil (n=17)** | | **0.17** |
| 62 | Y defnydd o adnoddau, mesur a holiaduron dilys | 0.02 |
| 50 | Cymysgedd o fesurau meintiol (faint) a mesurau ansoddol (pam) er mwyn dal y prif niferoedd a'r dealltwriaeth a awgrymir o'r modd y mae SP yn gweithio ar gyfer pobl wahanol o dan amgylchiadau gwahanol | 0.03 |
| **3 – Effaith ar y defnyddiwr (n=12)** | | **0.30** |
| 67 | Mesurau canlyniadau a adroddwyd am unigolion | 0.24 |
| 59 | Canlyniadau iechyd Cleifion | 0.26 |
| 72 | Mesur a ydy unigolion wedi cyflawni'r nodau a osodwyd neu ba mor bell ydyn nhw wedi gwneud hynny | 0.26 |
| **4 – Mesurau datrysiad (n=17)** | | **0.29** |
| 42 | Mesurau o'r amser mae rhagnodwyr wedi'i gymryd gyda chleifion (e.e. ymchwilio i gyflwr ymlaen llaw, nifer o atgyfeiriadau a gwblhawyd ar eu cyfer ar ôl ymgynghoriad, amser ymgynghori gyda chleifion ) | 0.13 |
| 105 | Tystiolaeth o benderfynyddion cymdeithasol iechyd yr amgylchedd y mae pobl yn byw ynddo e.e. Mynegai Amddifadedd Lluosog, cludiant, graddfeydd diweithdra, tlodi bwyd | 0.17 |
| **5 – Gweithlu a sefydliad (n=12)** | | **0.38** |
| 96 | Data ar broffil sefydliad ymyriad y gweithlu rhagnodi cymdeithasol | 0.29 |
| 38 | Gwybodaeth ar waith rhyng-sectorau | 0.33 |
| **6 – Deall y cyd-destun lleol (n=10)** | | **0.28** |
| 83 | Ffocws ar y dystiolaeth sy'n bwysig i'r penderfynwyr a chyllidwyr | 0.13 |
| 27 | Canllawiau ar sut u ddarllen y gwerthusiad; gan ddarparu eglurhad o gyfyngiadau'r canfyddiadau, y gallu i gyffredinoli, ffynonellau data, meini prawf eithrio a chymhwyster, graddfeydd amser | 0.17 |
| **7 – Cyfathrebu a lledaenu (n=17)** | | **0.51** |
| 77 | Ystyried syniadau partneriaid rhagnodi cymdeithasol | 0.34 |
| 37 | Mewnbwn gan weithwyr proffesiynol maes iechyd | 0.37 |
| **8 – Materion ymarferol ymchwil (n=12)** | | **0.72** |
| 9 | Diagram llif o nifer y bobl y gofynnwyd iddyn nhw/a gynhwyswyd ayb. | 0.46 |
| 18 | Y gallu i ddilysu'r wybodaeth a fewnbynnwyd | 0.47 |


### *Gweithgaredd 3: Graddio 'pwysigrwydd' a 'hwylustod mesur'*

Yn y gweithgaredd terfynol, gofynnwyd i gyfranogwyr raddio'r 124 datganiad ar raddfeydd Likert yn amrywio o 1 – 5 ar *bwysigrwydd* a *pha mor ddefnyddiol ydy'r datganiad i'ch rôl.* Mae Tabl 3 yn dangos cyfartaledd y graddfeydd ar bob graddfa o'r wyth clwstwr.


*Tabl 3. Nifer o ddatganiadau fesul clwstwr, gwerth pontio a chyfartaledd graddfa ar gyfer pob clwstwr ar raddfeydd pwysigrwydd a hwylustod mesur.*

| | Dyluniad gwerthuso | Dulliau ymchwil | Effaith ar y defnyddiwr | Mesurau canlyniadau | Gwerthuso Sefydliad | Deall y Cyd-destun | Cyfathrebu a ledaenu | Materion Ymarferol Ymchwil |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer o ddatganiadau** | 27 | 17 | 12 | 17 | 12 | 10 | 17 | 12 |
| **Gwerth pontio** | 0.30 | 0.17 | 0.30 | 0.29 | 0.38 | 0.28 | 0.51 | 0.72 |
| **Cyfartaledd graddfa pwysigrwydd clwstwr (n=20)** | 4.04 | 4.04 | 4.35 | 4.01 | 3.81 | 3.90 | 3.93 | 3.71 |
| **Cyfartaledd bod o help i'r rôl y clwstwr (n=14)** | 3.96 | 4.01 | 4.36 | 4.06 | 3.74 | 3.98 | 3.80 | 3.67 |

Mae map graddio pwysigrwydd clwstwr (Ffigwr 5 a Thabl 3) a'r map bod o help i'r rôl (Ffgwr 6 a Thabl 3) yn dangos bod cyfrangowyr yn graddio clwstwr 'Effaith ar y defnyddiwr' [3] fel pwysicaf (M = 4.35) a'r mwyaf o help i'w rôl (M = 4.36). I'r gwrthwyneb graddiwyd clwstwr 'Materion ymarferol ymchwil' [8] fel y lleiaf pwysig (M = 3.71) a'r lleiaf o help i'w rôl (M = 3.67).





*Ffigwr 5. Map graddio clwstwr: pwysigrwydd datganiadau i werthusiad o ragnodi cymdeithasol*




*Ffigwr 6. Map graddio clwstwr: Faint o help ydy'r datganiadau i rôl cyfranogwyr.*


Gellir deall y graddfeydd clwstwr hyn yn well gydag adroddiadau Matsio Patrwm. Mae ffigwr 7 yn dangos y cyfartaledd y graddio fesul clwstwr ar y ddwy raddfa. Mae hyn yn fatsio patrwm perthynol ac fel y cyfryw yn cyflwyno cyfartaleddau clwstwr o fewn ystod graddfeydd ar gyfer pob graddfa yn hytrach nag ar raddfa sefydlog absoliwt. Mae matsio patrwm perthynol yn galluogi'r ymchwilydd i gymharu mesuriadau lluosog er mwyn sefydlu tuedd (Kamat, 2019). Gan fod y graddfeydd yn mesur gwahanol gysyniadau (h.y. pwysigrwydd a help i'r rôl), mae'n fwy defnyddiol i gymharu graddfa clystyrau ar wahanol raddfeydd, mewn cyferbyniad â'r rhifau absoliwt sydd efallai ddim yn gymaradwy.

Mae'r matsio patrwm (Ffigwr 7) yn dangos cysondeb uchel rhwng pwysigrwydd ac o help i raddio'r rôl ($r$=0.95).




*Ffigwr 7. Adroddiad matsio patrwm perthynol yn cymharu graddfeydd clwstwr ar gyfer pwysigrwydd a bod o help i'r rôl.*

Mae meddalwedd Group Wisdom[TM] hefyd yn galluogi'r ymchwilydd i lunio adroddiad 'Go-Zone'. Mae hyn yn gosod datganiadau ar graff sy'n seiliedig ar gyfartaledd eu graddfa ar y ddwy raddfa a ddefnyddiwyd yng ngweithgaredd 3. Rhennir y Go-Zone yn bedwar chwarter ar sail cyfartaledd graddio pob datganiad ar gyfer y ddwy raddfa. Mae ffigwr 8 yn dangos adroddiad Go-Zone o ran Pwysigrwydd-Help i raddfeydd y rôl. Roedd cydberthynas Go-Zone (*r*) ar gyfer Pwysigrwydd-Help ac adroddiad yn 0.78. mae hyn yn arwydd o gydberthynas cadarn rhwng y modd graddiodd cyfranogwyr bwysigrwydd datganiadau a pha mor ddefnyddio ydy e i'w rôl.




*Ffigwr 8. Adroddiad Go-Zone yn dangos sut caiff pob datganiad eu riportio o ran pwysigrwydd a bod o help i'r rôl. Sylwer, mae lliwiau pwnt datganiad yn cyfeirio at ym mha clwstwr y mae'r datganiad.*

Ceir y deg datganiad raddiwyd yn uchaf ar *bwysigrwydd a bod o help i'r rôl* yn Nhabl 4 a 5 yn eu tro.

*Tabl 4. Datganiadau a raddiwyd y rhai pwysicaf.*

| *#* | *Datganiad* | *Pwysigrwydd* | *Clwstwr* |
|---|---|---|---|
| 121 | Barn yr unigolyn sy'n derbyn y rhagnodi cymdeithasol | 4.7895 | 4 |
| 55 | Methodoleg, dull o fynd ati a nodau clir | 4.75 | 1 |
| 123 | Adborth gan gyfranogwyr am eu profiad: a oedden nhw'n teimlo bod pobl yn gwrando ar eu barn ac a ddiwallwyd eu hanghenion | 4.7 | 3 |
| 60 | Canlyniadau llesiant claf | 4.65 | 3 |
| 65 | Effaith ar ansawdd bywyd | 4.6 | 3 |
| 76 | Ystyriaeth o syniadau cleient rhagnodi cymdeithasol | 4.55 | 5 |
| 67 | Mesurau canlyniadau a adroddir gan unigolion | 4.5263 | 3 |
| 35 | Cyllid addas ar gyfer gwerthuso | 4.5 | 1 |
| 50 | Cymysgedd o fesurau meintiol (faint) ac ansoddol (pam) i ddal y prif rifau a'r dealltwriaeth a awgrymir am y modd y mae SP yn gweithio i wahanol bobl mewn gwahanol amgylchiadau | 4.45 | 2 |
| 72 | Mesur a ydy unigolion wedi cyflawni'r nodau a osodwyd iddyn nhw a pha mor bell ydyn nhw wedi cael eu cyflawni | 4.45 | 3 |

*Tabl 5. Datganiadau a raddiwyd fel bod o'r help mwyaf i'w rôl..*

| *#* | *Datganiad* | *Help* | *Clwstwr* |
|---|---|---|---|
| 60 | Canlyniadau llesiant claf | 4.6923 | 3 |
| 50 | Cymysgedd o fesurau meintiol (faint) ac ansoddol (pam) i ddal y prif rifau a'r dealltwriaeth a awgrymir am y modd y mae SP yn gweithio i wahanol bobl mewn gwahanol amgylchiadau | 4.6667 | 2 |
| 121 | Barn yr unigolyn sy'n derbyn rhagnodi cymdeithasol | 4.6154 | 4 |
| 65 | Effaith ar ansawdd bywyd | 4.6154 | 3 |
| 117 | Data ar foddhad cleifion | 4.5833 | 3 |
| 123 | Adborth gan gyfranogwyr am eu profiad: a oedden nhw'n teimlo bod pobl yn gwrando ar eu barn ac a ddiwallwyd eu hanghenion | 4.5385 | 3 |
| 1 | Cytuno ar nodau ac amcanion clir ymlaen llaw (e.e. beth mae comisiynwyr yn ei ddymuno?) | 4.5385 | 1 |
| 7 | Nodweddion unigolyn (claf) (e.e. demograffeg, gwybodaeth, demograffeg gymdeithasol, gwybodaeth iechyd) | 4.5385 | 1 |
| 55 | Methodoleg, dull o fynd ati a nodau clir | 4.4615 | 1 |
| 72 | Mesur a ydy unigolion wedi cyflawni'r nodau a osodwyd iddyn nhw a pha mor bell ydyn nhw wedi cael eu cyflawni | 4.4615 | 3 |

Gan dynnu graddfeydd pwysigrwydd a help i'r rôl at ei gilydd (Tablau 4 a 5) rydyn ni wedi amcangyfrif sgoriau graddio cymedr er mwyn nodi'r deg datganiad a nodwyd eu bod, ar y cyd, y rhai mwyaf pwysig a'r mwyaf o help i'r rôl. Ceir rhain yn Nhabl 6.

*Tabl 6. Datganiadau a ystyriwyd eu bod, ar y cyd y pwysicaf a'r mwyaf o help i'w rôl*

| *#* | *Datganiad* | *Cymedr* | *Clwstwr* |
|---|---|---|---|
| 121 | Barn yr unigolyn sy'n derbyn rhagnodi cymdeithasol | 4.70 | 4 |
| 60 | Canlyniad llesiant claf | 4.67 | 3 |
| 123 | Adborth gan gyfranogwyr am eu profiad: a oedden nhw'n teimlo bod pobl yn gwrando ar eu barn ac a ddiwallwyd eu hanghenion? | 4.62 | 3 |
| 65 | Effaith ar ansawdd bywyd | 4.61 | 3 |
| 55 | Methodoleg, dull o fynd ati a nodau clir | 4.61 | 1 |
| 50 | Cymysgedd o fesurau meintiol (faint) ac ansoddol (pam) i ddal prif rifau a'r dealltwriaeth a awgrymir o sut mae SP yn gweithio i wahanol bobl, mewn gwahanol amgylchiadau | 4.56 | 2 |
| 76 | Ystyriaeth o syniadau cleient y rhagnodi cymdeithasol | 4.47 | 5 |
| 72 | Mesur a ydy unigolion wedi cyflawni'r nodau a osodwyd iddyn nhw a pha mor bell ydyn nhw wedi'u cyflawni | 4.46 | 3 |
| 1 | Cytuno ar nodau ac amcanion clir ymlaen llaw (e.e beth mae comisiynwyr yn ei ddymuno? | 4.45 | 1 |
| 45 | Dulliau ymchwil ansoddol | 4.44 | 2 |

## Dehongliad cyffredinol

Nododd yr astudiaeth bresennol wyth clwstwr a ddylai gael eu cynnwys wrth ystyried arferion da mewn gwerthuso rhagnodi cymdeithasol (Ffigwr 4). Caiff y canfyddiadau hyn eu defnyddio fel sail i ddatblygu fframwaith gwerthuso rhagnodi cymdeithasol ac adrodd yn ôl am safonau. Mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gael o ran pa mor bwysig ac o help yr ystyriai gwahanol grwpiau o gyfranogwyr ddatganiadau arbennig a'u clystyrau cyfatebol. Rhaid i fframwaith ar gyfer gwerthuso rhagnodi cymdeithasol integreiddio'r data dosbarthu a graddio er mwyn cynnig cynrychiolaeth o bob clwstwr tra'n pennu gwerth elfennau'r datganiadau a'r clystyrau elfennau a raddiwyd fel y rhai pwysicaf a'r mwyaf o gymorth.

# 4. Casgliad

Fe wnaeth astudiaeth y Grŵp Mapio Cysyniad hwn (GCM; Kane & Trochim, 2007) gynnwys pedwar deg dau (*n* = 42) o gyfranogwyr o wahanol ardaloedd daearyddol ar draws y Deyrnas Unedig, gyda chynrychiolaeth o wahanol randdeiliaid a sectorau ym maes rhagnodi cymdeithasol. Cynhaliodd y rhanddeiliaid hyn dair tasg ddilynol i ystyried yr hyn ddylai arferion da ym maes gwerthuso rhagnodi cymdeithasol ei gynnwys. Hwylusodd natur ar-lein GCM ehangder cyfranogiad ar draws y Deyrnas Unedig, yn enwedig o gofio cyfyngiadau pandemig COVID-19.

Mae dadansoddiad o ddata o fewn GCM wedi'n galluogi i nodi wyth clwstwr perthnasol i werthuso rhagnodi cymdeithasol; dylunio gwerthuso (1), dulliau ymchwil  (2), effaith ar y defnyddiwr (3), mesurau canlyniad  (4), gweithlu a sefydliad (5), deall y cyd-destun lleol (6), cyfathrebu a lledaenu (7) a materion ymarferol ymchwil [8]. Ystyriodd dadansoddiad pellach y gwahaniaethau yn arfarniad y clystyrau hyn a'r datganiadau cysylltiol yn seiliedig ar y ddwy raddfa; pwysigrwydd y rôl a bod o help i'r rôl. Roedd cydberthynas cadarn rhwng y datganiadau a graddfeydd y clystyrau a hynny'n awgrymu cydberthynas cadarn rhwng pwysigrwydd yr elfen arferion o werthuso a pha mor ddefnyddiol ydy hynny i'r rôl. Nododd y mwyafrif o'r cyfranogwyr mai ymchwilwyr oedd eu rôl sylfaenol yn y gwaith gwerthuso, gyda chynrychiolaeth o blith gweithwyr proffesiynol eraill yn cynnwys ymarferwyr, rheolwyr, llywodraethwyr, comisiynwyr a chyllidwyr. Yn anffodus, oherwydd y niferoedd isel o bobl heb fod yn ymchwilwyr a y graddfeydd graddio, doedd hi ddim yn bosibl i ddatgyfuno canfyddiadau a chymharu ymchwilwyr gyda rhai heb fod yn ymchwilwyr. Mae angen ymchwil pellach i ystyried y gwahaniaethau mewn canfyddiadau o'r cydrannau gwerthuso hyn ac a oes gwahaniaethau yn yr hyn sy'n ddefnyddiol i wahanol grwpiau o weithwyr proffesiynol sy'n rhan o werthuso rhagnodi cymdeithasol. Bydd hyn yn fodd i benderfynu a fydd y fframwaith gwerthuso sy'n deillio o'r astudiaeth hon yr un fath ar gyfer ymchwil ac ymarfer neu a fyddai angen gwahaniaethau yn y fframwaith, i adlewyrchu'r gwahanol anghenion a blaenoriaethau y grwpiau proffesiynol hyn.

### *Cyfyngiadau*

O'r cychwyn cyntaf, ein nod oedd recriwtio cyfranogwyr rhyngwladol drwy ein rhwydweithiau rhagnodi cymdeithasol. Yn anffodus, dim ond saith o gyfranogwyr oedd yn byw tu allan i'r Deyrnas Unedig, roedden ni wedi gallu recriwtio, chwech o Ewrop ac un o Ogledd America. Gan fod y niferoedd mor isel, cytunodd y grŵp llywio na fyddai'n briodol i gynnwys data o'r cyfranogwyr rhyngwladol hyn ar y cyfnod hwn o'r dadansoddiad. Mae hyn oherwydd gwahanol gamau esblygiad y rhagnodi cymdeithasol tu allan i'r Deyrnas Unedig ac, felly, blaenoriaethau a safbwyntiau cyfranogwyr rhyngwladol. Roedden ni'n teimlo na fyddai'n gynrychioliadol i wneud honiadau rhyngwladol ar sail saith o gyfranogwyr. Defnyddir data o'r cyfranogwyr hyn pan ehangir y fframwaith o fframwaith y DU i fframwaith rhyngwladol ar gyfer gwerthuso rhagnodi cymdeithasol ymhlith ymchwil a phrofion rhyngwladol pellach.

Yn yr un modd, roedden ni'n ceisio recriwtio cyfranogwyr gyda rolau amrywiol ym maes rhagnodi cymdeithasol, er mwyn dal consensws ar draws grŵp eang o randdeiliaid gwerthuso rhagnodi cymdeithasol, fel y soniwyd yn flaenorol, ymchwilwyr oedd y mwyafrif o gyfranogwyr ac er y cynrychiolwyd grwpiau o rhanddeiliaid eraill, roedd y niferoedd yn sylweddol is. Roedd ymglymiad a chwblhau'r dau gam diweddarach (dosbarthu a graddio) hefyd yn is ar gyfer y rhai heb fod yn ymchwilwyr a olygai nad oedd hi'n bosibl cymharu safbwyntiau'r ddau grŵp. Efallai gellir egluro hyn gan faich ymchwil rhanddeiliaid yr ymarfer. Yr astudiaeth gyfredol oedd trydedd astudiaeth Mapio Cysyniad Grŵp a gynhaliwyd gan Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru yn ystod y flwyddyn

ddiwethaf a nododd rhai o'r cyfranogwyr bod hyn wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i gymryd rhan. I liniaru hyn a sicrhau mewnbwn gan randdeiliaid heb fod yn ymchwilwyr, datblygir y canfyddiadau a'r fframweithiau mewn ymgynghoriad ag ymarferwyr rhagnodi cymdeithasol drwy fforymau gwerthuso Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru a gweithdy consensws caffi byd yn ystod trydydd cam astudiaeth ACCORD.

### *Casgliadau a'r camau nesaf*

Mae'r astudiaeth gyfredol wedi nodi wyth clwstwr sy'n ffurfio arferion da mewn gwaith rhagnodi cymdeithasol, yn ôl penderfyniad rhanddeiliaid rhagnodi cymdeithasol ar draws y Deyrnas Unedig. O'r data hwn, bu'n bosibl enwi'r datganiadau a raddiwyd fel y pwysicaf a'r rhai o fwyaf o gymorth i rôl y cyfranogwyr. Caiff canfyddiadau yr astudiaeth bresennol eu cyfuno gyda chanfyddiadau'r Adolygiad Realydd sy'n ystyried sut mae rhagnodi cymdeithasol yn gweithio (Elliott et al., 2021) i fod yn sail i ddatblygiad rhagarweiniol fframwaith gwerthuso rhagnodi cymdeithasol a riportio safonau. Caiff safonau'r fframwaith eu datblygu ymhellach mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid mewn gweithdy caffi byd yn 2021/22. Yn dilyn y broses ddatblygu hon, caiff y fframwaith a'r safonau eu profi yn ymarferol ac yn efelychiadol, ynghyd â deunyddiau hyfforddi ar gyfer gwerthuso rhagnodi cymdeithasol. Yna, caiff yr holl ddeunyddiau ac adnoddau eu dosbarthu ymhlith rhanddeiliaid rhagnodi cymdeithasol i'w defnyddio yn eu gwerthusiadau.

## 5. Cyfeiriadau


Bickerdike, L., Booth, A., Wilson, P.M., Farley, K. and Wright, K., 2017. Social prescribing: less rhetoric and more reality. A systematic review of the evidence. *BMJ open*, *7*(4).

Carnes, D., Sohanpal, R., Frostick, C., Hull, S., Mathur, R., Netuveli, G., Tong, J., Hutt, P. and Bertotti, M., 2017. The impact of a social prescribing service on patients in primary care: a mixed methods evaluation. *BMC health services research*, *17*(1), tud.1-9.

Elliott, M., Davies, M., Davies, J., and Wallace, C., 2021. What works when evaluating social prescribing? A realist review report. Report. p60.

Husk, K., Blockley, K., Lovell, R., Bethel, A., Bloomfield, D., Warber, S., Pearson, M., Lang, I., Byng, R. and Garside, R., 2016. What approaches to social prescribing work, for whom, and in what circumstances? A protocol for a realist review. *Systematic reviews*, *5*(1), tud.1-7.

Kamat, P.V., 2019. Absolute, Arbitrary, Relative, or Normalized Scale? How to Get the Scale Right. ACS Energy Lett, 4, 8.

Kane, M. and Rosas, S., 2017. *Conversations about group concept mapping: Applications, examples, and enhancements*. Sage Publications.

Kane, M. and Trochim, W.M., 2007. *Concept mapping for planning and evaluation*. Thousand Oaks, CA: Sage Publications.

Kimberlee, R., 2015. What is social prescribing?. *Advances in Social Sciences Research Journal*, *2*(1).

Moffatt, S., Steer, M., Lawson, S., Penn, L. and O'Brien, N., 2017. Link Worker social prescribing to improve health and wellbeing for people with long-term conditions: qualitative study of service user perceptions. *BMJ open*, *7*(7), p.e015203.

Pilkington, K., Loef, M. and Polley, M., 2017. Searching for real-world effectiveness of health care innovations: scoping study of social prescribing for diabetes. *Journal of medical Internet research*, *19*(2), p.e20.

Popay, J., Kowarzik, U., Mallinson, S., Mackian, S. and Barker, J., 2007. Social problems, primary care and pathways to help and support: addressing health inequalities at the individual level. Part I: the GP perspective. *Journal of Epidemiology and Community Health*, *61*(11), tud.966-971.

Price S, Hookway A, King S, 2017. Social prescribing evidence map: technical report. Public Health Wales Observatory. Primary and Community Care Development and Innovation Hub. Public Health Wales NHS Trust.

Rees S, Thomas S, Elliott M, Wallace C, 2019. Creating community assets/social capital within the context of social prescribing. Findings from the workshop held 17/7/2019. CGGC*, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Prifysgol De Cymru.*

Roberts T, Lloydwin C, Pontin D, Williams M, Wallace C, 2021. Social Prescribing and Complexity Theory: A Systematic Literature Review. Executive summary. Mai 2021. http://www.wsspr.wales/resources/Roberts%20et%20al%20systematic%20review%20executive%20summary.pdf

Roberts, T., Lloydwin, C., Pontin, D., Williams, M. and Wallace, C., 2021. The role of social prescribers in Wales: a consensus methods study. *Perspectives in Public Health*, p.1757913921990072.

SCIE, 2020. Evaluating personalised care. https://www.scie.org.uk/person-centred-care/evaluating-personalised-care

Steadman, K., Thomas, R. and Donnaloja, V., 2017. Social prescribing. *A pathway to work*. Work Foundation www.theworkfoundation.com.

Tierney, S., Wong, G., Roberts, N., Boylan, A.M., Park, S., Abrams, R., Reeve, J., Williams, V. and Mahtani, K.R., 2020. Supporting social prescribing in primary care by linking people to local assets: a realist review. *BMC medicine*, *18*(1), tud.1-15

Verity F, Richards J, Read S and Wallace S, 2021. Towards a contemporary social care 'prevention narrative' of principled complexity: An integrative literature review. *Health and Social Care in the Community. 00:1-16.*

Wallace C, Elliott M, Thomas S, Davies-McIntosh E, Beese S, Roberts G, Ruddle N, Groves K, Rees S, Pontin D, 2020. Using consensus methods to develop a Social Prescribing Learning Needs Framework for practitioners in Wales. *Perspectives in Public Health*. RSH-19-0186.R1

Wallace C, Stone J, Beeckman L, Davies E, Davies F, Evans R, Griffiths M, Kenkre J, Llewellyn M, Lynch M, Pontin D, Powell D, Roberts G, Smith S, Thomas S, Vinnicombe S, Wallace S, Elliott M, Rees S, 2018. All Wales Social Prescribing Research Network. What does good look like? Setting its outcome principles and Framework for Wales. Consultation Report. Hydref 31 Prifysgol De Cymru (USW). PRIME Centre Wales. REC Cymru. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), tud 7.

WSSPR, 2020. Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru / Wales School for Social Prescribing Research. Cyrchwyd 07.10.2020 ar www.wsspr.wales.

## 6. Atodiadau

### Atodiad 1: Rhestr gyflawn o'r datganiadau wnaed gan y cyfranogwyr (n=124)

| | |
|---|---|
| 1 | Cytuno ar nodau ac amcanion clir ymlaen llaw (e.e. Beth mae'r comisiynwyr eisiau?) |
| 2 | Dadansoddiad o’r cyd-destun lleol (e.e. nodweddion cymunedol, y sector gwirfoddol, yr amgylchedd, nodweddion practis meddygon teulu) |
| 3 | Asesiad o nifer y cyfleoedd yn yr ardal i gefnogi rhagnodi cymdeithasol. |
| 4 | Asesiad o'r gwerth a gyfrannir gan y rhagnodydd cymdeithasol y tu allan i'r berthynas ragnodi gymdeithasol (e.e. meithrin gallu cymunedol drwy ddatblygiad cymunedol) |
| 5 | Dylunio astudiaethau ymchwil sensitif |
| 6 | Diffiniad clir o ragnodi cymdeithasol a’i gydrannau a’i ffiniau, i ddibenion y gwerthusiad. |
| 7 | Nodweddion unigol (cleifion) (e.e. gwybodaeth ddemograffeg, demograffeg gymdeithasol, gwybodaeth iechyd) |
| 8 | Data wedi’u dad-gyfuno i asesu tegwch iechyd (e.e. yn ôl demograffeg gymdeithasol, yn ôl hil) |
| 9 | Diagram llif o nifer y bobl gafodd eu holi/eu cynnwys ayb. |
| 10 | Talu i'r rhai sy'n cymryd rhan |
| 11 | Y cyfle i gael opsiynau amlddewis i alluogi grwpio data yn glir, ond gyda'r opsiwn ychwanegol i ychwanegu pwyntiau nad ydyn nhw wedi'u cynnwys yn glir. |
| 12 | Protocol ymchwil gwyddonol trwyadl |
| 13 | Cysylltiadau uniongyrchol gydag ymarfer mewn dull o fynd ati drwy system iechyd sy'n dysgu |
| 14 | Cyfleoedd i gasglu data gan y rhai sydd fel arfer wedi’u heithrio o waith ymchwil (e.e. y rhai sy’n ‘anodd eu cyrraedd’, materion capasiti) |
| 15 | Cyfleoedd i gasglu data drwy ddewis iaith y cyfranogydd |
| 16 | Setiau cyflawn o ddata h.y. dylid canfasio'r holl bobl sy'n gymwys |
| 17 | Data amserol |
| 18 | Y gallu i ddilysu'r mewnbwn gwybodaeth |
| 19 | Cyfathrebu cadarn a lledaenu'r canfyddiadau gyda rhanddeiliaid (e.e. penderfynwyr, y rhai sy’n casglu data led-led gwlad) |
| 20 | Cyfathrebu cyson a lledaenu'r canfyddiadau gyda rhanddeiliaid (e.e. penderfynwyr, y rhai sy’n casglu data led-led gwlad) |
| 21 | Cynulleidfaoedd targed wedi'u diffinio'n dda |
| 22 | Dull clir o nodi pwy sydd yn eich grŵp targed o gyfranogwyr i ddeall a ydych yn cyrraedd y bobl gywir (ac unwaith y bydd y canfyddiadau'n dechrau dod i'r amlwg, y bobl a fyddai'n elwa fwyaf) |
| 23 | Iaith sy’n reddfol ac yn hawdd ei deall ar gyfer amrediad o gynulleidfaoedd (h.y. heb fod yn rhy dechnegol) |
| 24 | Lledaenu canlyniadau'r gwerthusiad yn briodol i gynulleidfaoedd o ddefnyddwyr |
| 25 | Lledaenu canlyniadau'r gwerthusiad yn briodol i gynulleidfaoedd academaidd |
| 26 | Lledaenu canlyniadau'r gwerthusiad yn briodol i gynulleidfaoedd polisi |
| 27 | Canllawiau ar sut i ddarllen y gwerthusiad; darparu esboniad o derfynau'r canfyddiadau, cyffredinoladwyedd, ffynonellau data, meini prawf eithrio a chymhwysedd, amserlenni |

| | |
|---|---|
| 28 | Rhesymau bod cleifion wedi rhoi'r gorau i'r ymyriad |
| 29 | Mewnbwn gan rai ddewisodd beidio cymryd rhan yn y cynnig rhagnodi cymdeithasol |
| 30 | Ffordd o ddeall, yn seiliedig ar ymddygiad gwirioneddol, pa ffactorau sy'n golygu bod pobl yn fwy tebygol o roi'r gorau iddi yn erbyn cadw at y cymorth a nodwyd a/neu symud ymlaen i gymorth perthnasol arall |
| 31 | Gwerthusiad economaidd (e.e. data ariannol, dadansoddiad o gyllid y rhaglen rhagnodi cymdeithasol) |
| 32 | Set o fesurau ymarferol ac y cytunwyd arnyn nhw sy'n ddigon hyblyg i weddu i ystod o sefydliadau |
| 33 | Llawer iawn o hyblygrwydd i ganiatáu i werthuso weithio ar gyfer yr ystod eang o wahanol drefniadau sydd gan wahanol ardaloedd ar gyfer rhagnodi cymdeithasol |
| 34 | Cyfnod dilynol o 12 mis i archwilio'r canlyniadau a'r effeithiau hirdymor |
| 35 | Cyllid priodol ar gyfer y gwerthusiad |
| 36 | Yr effaith ar y defnydd o ofal iechyd |
| 37 | Mewnbwn gan weithwyr proffesiynol maes iechyd |
| 38 | Gwybodaeth am waith rhwng y sectorau |
| 39 | Barn y rhai sy'n 'Rhagnodi Cymdeithasol' ar draws gweithgareddau 'Rh C' ffurfiol |
| 40 | Barn y rhai sy'n 'Rhagnodi Cymdeithasol' ar draws gweithgareddau Rh C' anffurfiol |
| 41 | Mewnbwn gan ragnodwyr cymdeithasol |
| 42 | Mesur o'r amser y mae rhagnodydd yn ei gymryd gyda chleifion (e.e. ymchwil ymlaen llaw i gyflwr, nifer yr atgyfeiriadau a gwblhawyd ar eu cyfer ar ôl ymgynghori, amser dreuliwyd yn ymgynghori â'r claf) |
| 43 | Camau a gymerir gan y rhagnodydd cymdeithasol ar adborth gan yr unigolyn neu'r sefydliad ymyrryd |
| 44 | Rhywbeth amgenach nag ymarfer ticio blychau |
| 45 | Dulliau ymchwil ansoddol |
| 46 | Dulliau cymysg sy'n ymgorffori safbwyntiau'r holl randdeiliaid |
| 47 | Rhywbeth tebyg i'r broses 'Y newid mwyaf arwyddocaol'. |
| 48 | Cyfeiriadaeth at astudiaethau achos penodol gyda chasgliadau clir a manwl |
| 49 | Ethnograffeg (arsylwi ac yn y dulliau olrhain ar y fomentwm) i weld yn ymarferol sut mae'r profiad byw yn gweithio i gleientiaid |
| 50 | Cymysgedd o fesurau meintiol (faint) ac ansoddol (pam) i gasglu'r prif niferoedd a'r ddealltwriaeth gynnil o sut mae rhagnodi cymdeithasol yn gweithio i wahanol bobl mewn amgylchiadau gwahanol |
| 51 | Offer casglu data hawdd eu defnyddio (ar gyfer y rhai heb fod yn ymchwilwyr) gyda chanllawiau rhagorol ar yr union beth sydd ei angen, ym mha fformat a phryd |
| 52 | Defnyddio dulliau casglu data cadarn sy'n caniatáu cymhariaeth dros amser, rhwng prosiectau ac yn rhyngwladol |
| 53 | Defnydd o ddulliau creadigol a llawn dychymyg i gael mynediad at brofiadau derbynwyr e.e. defnydd o'r celfyddydau, adrodd straeon |
| 54 | Data meintiol (e.e. gwybodaeth am y gwasanaeth rhagnodi cymdeithasol, atgyfeiriadau, hyd, demograffeg) |
| 55 | Methodoleg eglur, dull clir o fynd ati ac amcanion clir |
| 56 | Defnydd o fodelau a damcaniaethau perthnasol, e.e. Theori Hunan Benderfyniad (SDT) neu Fodel Newid Ymddygiad COM-B |
| 57 | Datblygu damcaniaethau newid a/neu ddamcaniaethau rhaglen |
| 58 | Y gallu i dracio a monitro cynnydd |
| 59 | Canlyniadau iechyd y cleifion |

| | |
|---|---|
| 60 | Canlyniadau llesiant y claf |
| 61 | Canlyniadau wedi eu personoli yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i'r claf |
| 62 | Defnydd o offer, mesurau a holiaduron wedi'u dilysu |
| 63 | Diffinio canlyniadau metrig mesuradwy |
| 64 | Rhoi ystyriaeth i agweddau heb eu mesur, megis gwelliant goddrychol yn llesiant yr unigolyn |
| 65 | Effaith ar ansawdd bywyd |
| 66 | Canlyniadau wedi'u diffinio'n dda (e.e. os ydych chi eisiau dweud 'cynnydd mewn llesiant' beth yn benodol rydych chi'n ei olygu wrth lesiant yn eich cyd-destun chi) |
| 67 | Mesurau'r canlyniad wedi'u hadrodd gan yr unigolyn |
| 68 | Mesurau'r canlyniad wedi'u hadrodd gan y gymuned |
| 69 | Mesurau y gellir eu cymhwyso'n gyffredinol i'r rhan fwyaf o weithgareddau 'Rh C' |
| 70 | Y canlyniad i'r unigolyn / mudiad sy'n gwneud yr ymyriad |
| 71 | Y canlyniad i'r unigolyn sy'n gwneud y rhagnodi cymdeithasol |
| 72 | Mesuriad a ydy'r/neu i ba raddau mae'r unigolion wedi cyflawni eu nodau eu hunain. |
| 73 | Perthnasedd i'r canlyniadau gwerthuso gofynnol |
| 74 | Cymesuredd ag angen sefydliadol |
| 75 | Ystyriaeth o fewnwelediadau'r tîm rhagnodi cymdeithasol |
| 76 | Ystyriaeth o fewnwelediadau'r cleient rhagnodi cymdeithasol |
| 77 | Ystyriaeth o fewnwelediadau'r partneriaid rhagnodi cymdeithasol |
| 78 | Ymchwil gweithredu cyfranogol sy'n cynnwys partneriaid, cleifion a defnyddwyr gwasanaeth wrth werthuso rhagnodi cymdeithasol |
| 79 | Dulliau cyd-gynhyrchiol cadarn i gynyddu cyfranogiad dinasyddion (defnyddwyr gwasanaeth) yn y broses o werthuso rhagnodi cymdeithasol |
| 80 | Gwerthusiad wedi ei arwain gan y gymuned |
| 81 | Perchnogaeth gan y cyfranogwr |
| 82 | Mewnbwn gan ffurfwyr polisi |
| 83 | Ffocws ar y dystiolaeth sy'n bwysig i ffurfwyr penderfyniadau a'r cyllidwyr |
| 84 | Cysylltu'r canfyddiadau ag agendâu iechyd a llesiant cenedlaethol |
| 85 | Cysylltu'r canfyddiadau ag agendâu iechyd a llesiant rhanbarthol |
| 86 | Cysylltu'r canfyddiadau ag agendâu iechyd a llesiant lleol |
| 87 | Barn gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol tuag at ragnodi cymdeithasol |
| 88 | Dadansoddiad o broses gweithredu'r prosiect |
| 89 | Gwerthuso prosesau i ddeall yr hyn sy'n gweithio, i bwy a sut mae'n cael ei gyflawni |
| 90 | Eglurder ynghylch diben y gwerthusiad (e.e. i ddarparu tystiolaeth o effeithiolrwydd i gyllidwyr, neu i gefnogi gwelliant parhaus i ddarparwyr y cynllun rhagnodi cymdeithasol) |
| 91 | Cydnabod realiti anniben bywydau pobl |
| 92 | Cydbwyso trylwyredd gwyddonol â phrofiad byw |
| 93 | Barn sefydliadau atgyfeirio |
| 94 | Gwybodaeth am atgyfeiriadau (e.e. y rheswm dros atgyfeirio, pryd y cawson nhw eu hatgyfeirio, pryd gwelwyd nhw, pa gymorth a roddwyd ar waith) |
| 95 | Dadansoddiad o rôl y gweithiwr cyswllt rhagnodi cymdeithasol (e.e. cefndir, rhinweddau, sgiliau meddal, hyfforddiant) sy'n cyfrannu at weithiwr cyswllt effeithiol. |
| 96 | Data ar broffil gweithlu rhagnodi cymdeithasol y sefydliad ymyrryd |
| 97 | Argaeledd hyfforddiant gwerthuso a goruchwyliaeth ar gyfer gweithwyr cyswllt a staff |

| | |
|---|---|
| 98 | Gwirio bod gan y gwasanaeth rhagnodi cymdeithasol wybodaeth sy'n cael ei diweddaru'n gyson |
| 99 | Metrigau i asesu arfer da mewn rhagnodi cymdeithasol |
| 100 | Cynlluniau ar gyfer cynaliadwyedd |
| 101<br>102 | Tystiolaeth bod sefydliadau yn cydymffurfio ag arferion cyflogaeth da, iechyd a diogelwch, tâl a darpariaeth pensiwn, a chyfleoedd datblygu staff<br>Data sefydliadol ar strategaeth, gweithdrefnau a chyflawniad gweithredol |
| 103 | Datganiadau preifatrwydd a diogelwch |
| 104 | Disgrifyddion a mesurau syml, hawdd eu deall |
| 105 | Tystiolaeth o benderfynyddion cymdeithasol iechyd ar gyfer yr amgylchedd y mae'r unigolyn yn byw ynddo e.e. Mynegai Amddifadedd Lluosog, trafnidiaeth, cyfraddau diweithdra, tlodi bwyd |
| 106 | Gwahaniaethu rhwng y rhyngweithio â'r rhagnodydd cymdeithasol a'r gweithgaredd/ymyrraeth a gyfeiriwyd/cyfeirir ato |
| 107 | Safbwyntiau gwahanol - o atgyfeirio, drwy'r cam cyfeirio, i ganfyddiad y sefydliad sy'n derbyn |
| 108 | Plot cadarn o lwybr cleifion/unigol drwy wasanaethau, gyda gwybodaeth/ymchwil ar bob cam o'r system 'RhC' (e.e. meddyg teulu, gweithiwr cyswllt, cymuned, claf) a chanlyniadau cysylltiedig lle bo'n briodol. |
| 109 | Gweithio mewn partneriaeth gyfartal â'r holl randdeiliaid allweddol (gan gynnwys defnyddwyr) o'r dechrau'n deg |
| 110 | Mynediad at yr holl randdeiliaid perthnasol, gan gynnwys y rhai sy'n gwneud penderfyniadau strategol, cyllidwyr, gweithwyr cyswllt, staff eraill ar lawr gwlad, cleifion/cleientiaid |
| 111 | Data gan bob parti - comisiynwyr, sefydliadau rhagnodi cymdeithasol, darparwyr ymyriadau, derbynwyr ymyriadau |
| 112 | Gwybodaeth systemau |
| 113 | Dealltwriaeth o ragnodi cymdeithasol fel rhan o system neu ecosystem gymhleth |
| 114 | Digon o amser ar gyfer cynllunio, ond cadw hyblygrwydd i addasu wrth i'r ddarpariaeth ddatblygu |
| 115 | Agweddau ar ddewis a rheolaeth y claf |
| 116 | Rhwystrau a brofwyd ar gyfer ymglymu |
| 117 | Data ar foddhad y claf |
| 118 | Gwirio bod y person yn gallu derbyn y wybodaeth (yn deall, hapus i fynychu, cefnogi'r anghenion i fynychu) |
| 119 | Amrywiaeth y rhai sy'n gallu cyrchu'r gwasanaeth |
| 120 | Data ar pam mae unigolyn ddim ond yn mynychu'r rhagnodi cymdeithasol yn rhannol gyda rhesymau pam na chaiff ei gyflawni |
| 121 | Barn yr unigolyn sy'n derbyn y rhagnodi cymdeithasol |
| 122 | Pa mor bell mae unigolyn yn ei gyrraedd i gyflawni'r hyn maen nhw'n dymuno'i gael drwy'r ymyriad. |
| 123 | Adborth gan gyfranogwyr am eu profiad: a oedden nhw'n teimlo eu bod yn cael eu clywed ac a oedd eu hanghenion wedi'u bodloni |
| 124 | Rhwyddineb hygyrchedd a defnydd gan amrediad eang o unigolion a phroffesiynau |